Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Meithrinfa Si-lwli**
**24 Park Road**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 7BQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/11/2015**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa Si-lwli yn lleoliad preifat, cyfrwng Cymraeg ym mhentref Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.  Mae'n cyfarfod mewn tŷ mawr sydd wedi ei haddasu ar ddau lawr ar gyfer darpariaeth feithrin.  Mae'r lleoliad ar agor am bum dydd yr wythnos.  Mae gan y lleoliad 16 aelod o staff, sy'n mynychu ar ddiwrnodau gwahanol yn ystod yr wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 42 o blant.  Mae'n derbyn plant rhwng chwe mis a phedair oed.  Ar adeg yr arolygiad, roedd 35 o blant yn mynychu, un ohonynt wedi'u hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un plentyn o darddiad gwyn Prydeinig ac mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.  Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd yn Awst 2012.  Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Rhagfyr 2014 a chan Estyn ym Mawrth 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cynllunio da o'r profiadau dysgu;
- cwricwlwm eang, cytbwys a diddorol, sy'n cefnogi'r holl blant;
- addysgu effeithiol, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- adnoddau priodol ar gael;
- darpariaeth a modelu effeithiol iawn o'r iaith Gymraeg;
- perthynas dda rhwng oedolion a phlant; a'r
- bodlonrwydd i gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y lleoliad.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- y ddarpariaeth a chyfeiriad clir i waith y lleoliad gan yr arweinyddion;
- yr agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff;
- y defnydd effeithiol o linellau cymorth effeithiol;
- y perchennog gweithredol a chefnogol; a'r
- defnydd synhwyrol o'r amgylchedd dysgu a'r ardal leol.

## Argymhellion

A1 Gosod amcanion dysgu clir i'r plant ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws

A2 Sicrhau bod yr asesiadau rheolaidd presennol yn arwain at y camau nesaf yn dysgu'r plant

A3 Sicrhau fod targedau'r cynllun gwella yn deillio'n uniongyrchol o'r hunan werthuso

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynllunio'n effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol a phresennol y plant. Mae cyfleoedd diddorol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm, yn enwedig medrau llythrennedd a rhifedd. Gosodir amser yn wythnosol i'r arweinydd a'r staff drafod y cwricwlwm a gweithgareddau'r themâu. Felly, mae'r cwricwlwm hyblyg yn cael ei reoli'n dda ac yn cael ei gysylltu'n effeithiol â diddordebau'r plant.

Mae gweithgareddau a thasgau penodol wedi'u cynllunio'n drylwyr ac mae gan y plant y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain. Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd a datblygiad corfforol a chreadigol. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol iawn â'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant yn dda. Mae'r staff brwdfrydig yn gyson gyfeirio'r plant tuag at ddefnyddio cyfarpar technolegol, fel y cyfrifiadur ac offer electronig. Mae gan yr holl blant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau diddorol fel peintio, adeiladu blociau ac arbrofi gyda dŵr a thywod.

Mae'r lleoliad yn rhoi pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn dathlu Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn astudio storïau moesol o Affrica. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

## Addysgu: Da

Mae'r staff yn addysgu'n dda ac mae ganddynt wybodaeth ymarferol gadarn am ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir hefyd o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas bositif rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion. Mae plant unigol yn cael eu herio'n gyson yn unol â'u galluoedd. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws.

Mae'r staff yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda iawn i lefelau datblygiad y plant. Mae'r staff yn annog y plant yn effeithiol i werthuso'u gwaith wrth iddynt drafod storïau a threfnu taith dramor ar awyren. Mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol, sy'n sicrhau fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau eu hunain. Mae'r staff yn bositif iawn wrth i'r plant gyrraedd ac mae eu brwdfrydedd yn parhau drwy gydol y sesiynau.

Mae gweithdrefnau asesu sefydlog yn bodoli. Mae'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n drwyadl. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau'n arwain, gyda digon o fanylder, at y camau nesaf yn addysg plant unigol. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth dda ar gyfer sicrhau iechyd, lles, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn gyson trwy weithgareddau bob dydd. Maent yn annog y plant ar bob achlysur i hyrwyddo eu hunan-barch a'u hyder. Rhoddir cyfleoedd da i blant fyfyrio, trafod eu teimladau a chymryd eu tro.

Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol. Mae'r staff yn darparu anogaeth effeithiol er mwyn i blant gymryd cyfrifoldeb i weini'r byrbrydau amrywiol a'r diodydd. Ar yr adegau hyn, mae cyfleoedd synhwyrol ar gael i'r plant drafod sut maent yn bwyta'n iach a phwysigrwydd cynaliadwyedd. Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ail-gylchu papur, plastig a chardfwrdd. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn ychwanegol, mae digon o gyfleoedd i blant ddysgu am sut mae pethau yn tyfu a sut i ofalu am yr amgylchedd yn yr ardal allanol trwy dyfu mefus a pherlysiau.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i wella profiadau dysgu plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymweliadau i fusnesau lleol a siop anifeiliaid anwes yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm, sy'n datblygu ac ymestyn profiadau'r plant yn synhwyrol. Mae ymweliadau i lefydd o ddiddordeb yn y pentref, fel y parc a'r llyfrgell yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas yn effeithiol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn

destun pryder. Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd diogel. Caiff y drysau eu cloi ac fe'u hagorir gan aelod o staff yn unig. O ganlyniad, ni all neb ddod i mewn ac ni all plentyn adael ar ei ben ei hun. Mae'r ardal awyr agored o fewn ffiniau'r lleoliad ac mae'r gatiau yn cael eu cloi'n ddiogel. Cymerir gofal da pan fydd plant yn cael eu casglu i sicrhau eu bod yng ngofal eu rhieni neu ofalwr hysbys.

Penodwyd aelod staff fel cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi. Mae'r cydlynydd yn trafod y plant yma gyda'r asiantaethau priodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol. Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n helpu i ddileu aflonyddwch neu ymddygiad gormesol yn briodol.

Mae gan y staff gymwysterau addas a phrofiad cadarn o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn bwrpasol i gynllunio a goruchwylio gweithgareddau. Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn synhwyrol i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng gweithgareddau sydd dan do ac yn yr awyr agored.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau'n llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol yn synhwyrol. Maent hefyd yn defnyddio arbenigedd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd ar adegau am hyfforddiant, cefnogaeth weinyddol a chynnwys polisïau. Mae'r arfer hon yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd i gefnogi'r lleoliad. Mae'r arweinydd, staff a'r perchennog yn cynllunio'n bwrpasol i ddarparu profiadau diddorol ac ymarferol i'r plant.

Mae'r cynllun gwella'n nodi'n briodol beth sydd angen ei wneud er mwyn i'r lleoliad wella. Fodd bynnag, er bod targedau'r cynllunio strategol yn cael effaith gadarnhaol trwy greu gwelliannau, nid yw'r targedau yn cyfatebu'n gyson gyda'r sylwadau yn yr adroddiad hunan werthuso.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r perchennog a'r arweinydd yn arwain yn effeithlon ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth ac mae'r systemau rheoli yn cwrdd â gofynion.

Mae’r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Rhoddir ystyriaeth synhwyrol i sylwadau pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad wrth lunio’r hunan arfarniad. Yn gyffredinol, mae anghenion y lleoliad yn cael eu nodi’n briodol yn y cynllun datblygu. Mae’r arweinydd, staff a’r perchennog yn trafod y cynllun datblygu yn hyderus ac maent yn sicr o’r broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd eu targedau. Mae’r ardaloedd i wella yn cynnwys atgoffa’r plant i barchu llyfrau, gwella arsylwadau, gwella’r hyfforddiant, trefnu fwy o ymwelwyr a gosod targedau mewn cyfarfodydd staff.

Mae’r ardaloedd yma yn cael eu targedu’n addas yn erbyn meini prawf llwyddiant a llinynnau amser. Maent yn cael blaenoriaeth briodol yn natblygiad y lleoliad gan y staff, yr awdurdod lleol, a’r perchennog. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad uniongyrchol a chyson rhwng yr hunan arfarniad a thargedau’r cynllun datblygu. Ar hyn o bryd, nid yw’r broses yn nodi meysydd i wella’n effeithiol er mwyn creu targedau perthnasol a chynnil yn y cynllun datblygu.

Mae’r staff yn gwneud defnydd da o gyfleoedd hyfforddi a phrofiadau dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r rhieni, yn yr atebion i’r holiaduron ac yn ystod trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â’r lleoliad ac yn gwerthfawrogi’n fawr y safonau o ofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi’r polisi drws agored a’r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â’r staff. Ceir llyfryn sy’n llawn gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy’n eu darparu â manylion perthnasol am y lleoliad.

Erbyn i’r plant adael y lleoliad, mae’r rhieni yn teimlo eu bod wedi’u paratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol leol. Mae’r cysylltiadau rhwng y lleoliad a’r ysgol yn dda gydag ymweliadau cyson yn bodoli trwy’r flwyddyn. Mae’r partneriaethau cymunedol yn llwyddiannus ac mae’r lleoliad yn cymryd pob cyfle i ddefnyddio’r pentref a’r ardal gyfagos i ddarparu profiadau diddorol ar gyfer y plant.

Mae’r cysylltiadau a’r gefnogaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn gyson. Mae’r cyngor a’r awgrymiadau yn gymorth i symud y lleoliad ymlaen ac yn cyfrannu at y ddarpariaeth dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r arweinyddiaeth yn strategol ac yn cynllunio i’r dyfodol. Mae’r adnoddau yn cael eu rheoli’n dda i gefnogi dysgu a gwelliannau yn y lleoliad. Mae’r arweinydd a’r perchennog yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff sy’n meddu ar gymwysterau a hyfforddiant priodol. Mae’r perchennog, yr arweinydd a’r staff yn defnyddio asiantaethau cynorthwyol yn bwrpasol er lles y plant.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i wella cyflawniadau'r plant. Gwneir defnydd synhwyrol o'r holl adnoddau sydd ar gael. Maent yn hylaw i'r plant. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad a'r ardal leol i ddarparu ystod o brofiadau dysgu diddorol.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |